# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 24 Mawrth 2015** |
| Amser: | **09.40 - 10.04** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

Preifat

Aelodau'r Cynulliad:

**Llyr Gruffydd AC**
**Mick Antoniw AC (Cadeirydd)**
**Mark Isherwood AC**
**Eluned Parrott AC**

Tystion:

Staff y Pwyllgor:

**Bethan Davies (Clerc)**
**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**
**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**
**Owain Roberts (Swyddog)**

## 1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Eluned Parrott AC i'r cyfarfod yn dilyn ei hetholiad i'r Pwyllgor ar 30 Medi 2014, a nodwyd ei ddiolch i Kirsty Williams AC am ei chyfraniad at waith y Pwyllgor.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

## 3 Enwebu Aelod Pwyllgor o dan Adran 10.2 o'r Weithdrefn Gwynion

3.1 Enwebwyd Mark Isherwood AC i weithredu yn unol ag Adran 10.2 o'r weithdrefn gwynion.

## 4 Adroddiad Blynyddol 2014 y Grŵp Trawsbleidiol

4.1 Nodwyd yr adroddiad.

## 5 Cofrestru a Datgan Buddiannau

5.1 Nododd yr Aelodau'r llythyr a'r adroddiad gan y Llywydd ynghylch Cofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ymateb i'r perwyl hwnnw, yn ogystal â darparu amserlen ar gyfer pryd yr hoffai'r Pwyllgor weld y Rheolau Sefydlog newydd yn dod i rym.
5.2 Trafododd Y Pwyllgor y canllawiau diwygiedig a chytunwyd i gyflwyno'r adroddiad i'w grwpiau ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar 12 Mai.
5.3 Nododd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymddygiad.
5.4 Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn dychwelyd i roi'r penderfyniad terfynol ynghylch yr eitemau hyn yn y cyfarfod ar 12 Mai. Yn dilyn hynny, bydd y clercod yn gofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn er mwyn i'r materion gael eu trafod a chynnal pleidlais arnynt.